

## Annwyl Landlord/Asiant,

Mae ein cylchlythrau chwarterol yn caniatáu i chi gael y wybodaeth a'r ddatblygiadau diweddaraf yn y Sector Rhentu Preifat.

Ymhlith yr uchafbwyntiau yw'r canlynol:

- Dewisiadau hyfforddiant newydd ar gyfer adnewyddu trwydded
- Rhentu Doeth Cymru yn ailwampio cyngor i denantiaid
- Seibiant dyledion i denantiaid
- Ymgynghoriad: Sicrhau Adeiladau Mwy Diogel
- Cymorth ariannol gyda gwelliannau perfformiad ynni
- Mesuryddion deallus - byddwch yn rhan o'r symudiad



### ADNEWYDDU

## Dewisiadau hyfforddiant newydd ar gyfer adnewyddu trwydded

Mae Rhentu Doeth Cymru wedi nodi ei bumed pen-blwydd yn ddiweddar ac mae ail-gofrestru ac ail-drwyddedu bellach ar y gweill.

Mae mwy o ddewisiadau hyfforddiant bellach ar gael ar gyfer adnewyddu trwyddedau er mwyn darparu ar gyfer gwybodaeth ac anghenion busnes amrywiol. Nod y dull hwn yw annog landlordiaid i adeiladu ar, a datblygu eu sylfaen wybodaeth.

Bydd gan y rhai sy'n dymuno mireinio ar feysydd pwnc penodol dros y cyfnod trwyddedu o 5 mlynedd y dewis i gwblhau **Datblygiad Proffesiynol Parhaus**. Fel arall, bydd y rhai y mae'n well ganddynt gael trosolwg mwy cynhwysfawr yn dal i allu cwblhau'r hyn sy'n cyfateb i gwrs 1 diwrnod mewn un. Mae'n ail-grynhoi'r holl wybodaeth hanfodol am osod a rheoli.

[Gweld dewisiadau >](#)

*Noder: bydd Rhentu Doeth Cymru yn cysylltu â chi cyn i'r cofrestriad/trwydded ddod i ben. Os hoffech wirio pryd y disgwylir i'ch cofrestriad neu drwydded ddod i ben, cymerwch olwg ar ein cofrestr gyhoeddus [yma](#).*

## Cyrsiau rhithwir ystafell ddosbarth ar gyfer adnewyddu

Os oes angen i chi adnewyddu eich trwydded landlord a bod gennych ofynion hyfforddi rhagorol, mae ein cwrs rhithwir ystafell ddosbarth yn cynnig yr un buddion a hyfforddiant personol gyda'r cyfle i ofyn cwestiynau a rhyngweithio â chynrychiolwyr eraill

### Cyrsiau i ddod

- **Cwrs Cyflawn Landlord**

Dyddiad: Dydd Mercher 24 Mawrth | Amser: 9:30yb - 3:30yp

[Gweld y cwrs >](#)

- **Deall Achosion Meddiant (Datblygiad Proffesiynol Parhaus)**

Dyddiad: Dydd Gwener 26 Mawrth | Amser: 9:30yb - 12:30yp

[Gweld y cwrs >](#)

- **Atgyweirio a Diogelwch (Datblygiad Proffesiynol Parhaus)**

Dyddiad: Dydd Gwener 26 Mawrth | Amser: 1:30yp - 4:30yp

[Gweld y cwrs >](#)



## CYNGOR I DENANTIAID

### Rhentu Doeth Cymru yn ailwampio cyngor i denantiaid

Rydym yn ymdrechu'n gyson i wella'r ffyrdd y gall ein holl randdeiliaid gyrchu gwybodaeth ddibynadwy dda.

Ein datblygiad diweddaraf yw ailwampio ac ail-lansio ein hadnoddau cymorth i denantiaid ar y wefan. Mae hi bellach yn rhoi atgyfeiriadau clir at amrywiaeth o wasanaethau cyngor a chymorth i denantiaid. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gymorth gyda chyllidebu a fforddiadwyedd, iechyd meddwl, datrys anghydfodau a cheisio cymorth i gynnal atgyweiriadau.

Gall tenantiaid bellach gymryd golwg ar, a chymharu'r cymorth a gynnigir gan wahanol sefydliadau, boed yn llywodraeth genedlaethol neu leol, yn elusennol neu'n wirfoddol.

[Gweld cymorth i denantiaid >](#)



## RHEOLIADAU

### Seibiant Dyledion i Denantiaid

Bydd Lle i Anadlu, cynllun statudol newydd, yn cychwyn ar **4 Mai 2021**.

Bydd y cynllun yn rhoi'r hawl i unigolyn sy'n cael trafferth gyda dyledion gael ei amddiffyn yn gyfreithiol o'u credydwy, gan roi cyfnod o amser iddo reoli ei arian yn well, ceisio cyngor proffesiynol ar ddyledion a dod o hyd i atebion cynaliadwy. Gellir cynnwys pob math o dyledion mewn moratoriwm, gan gynnwys ôl-ddyledion rhent.

Yn gryno, bydd y cynllun:

- yn amddiffyn tenantiaid drwy oedi camau gorfodi gan gredydwy'r a rhewi taliadau, ffioedd a llog penodol
- ar gael i unrhyw un sydd mewn dyled broblemus sy'n byw yng Nghymru neu Loegr, sy'n cael cyngor ar ddyledion ac sy'n bodloni amodau a'r meini prawf cymhwysedd.

[Mwy o wybodaeth >](#)



## DIOGELWCH ADEILADU

### Ymgynghoriad y Llywodraeth - Sicrhau Adeiladau Mwy Diogel

Roedd trychineb Grenfell yn 2017 yn ein hatgoffa o ganlyniadau dinistriol ansawdd adeiladau gwael a methu â blaenoriaethu diogelwch preswylwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Papur Gwyn sy'n nodi cynigion ar gyfer diwygio deddfwriaeth sy'n cyfrannu at ddiogelwch adeiladau yng Nghymru yn gynhwysfawr. Mae'n canolbwyntio ar newid deddfwriaethol ar draws cylch oes adeiladau yn ogystal â nodi dyheadau ar gyfer newid diwylliant yn y ffordd y caiff adeiladau eu dylunio, eu hadeiladu a'u rheoli. Gofynnir am eich barn ar y cynigion hyn.

**Dyddiad cau atebion:** 12 Ebrill 2021.

[Mwy o wybodaeth >](#)

## EFFEITHLONRWYDD YNNI

Ydych chi'n cydymffurfio ag safonau Tystysgrif Perfformiad Ynni?



oes gennych dystysgrif perfformiad ynni ar gyfer eich eiddo ar rent neu os oes ganddo sgôr F neu G. Mae gan awdurdodau lleol y pŵer i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig (£5000) am y drosedd hon. Fodd bynnag, mae cymorth ar gael mewn rhai amgylchiadau. Gweithredwch nawr i osgoi cael eich cosbi.

Os yw eich tenant yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, efallai y bydd mesurau effeithlonrwydd ynni am ddim ar gael drwy gynllun Nyth Llywodraeth Cymru.

Mae cymorth grant i wella perfformiad ynni eiddo â sgôr E, F neu G hefyd ar gael drwy Rhentu Doeth Cymru a gallech fod yn gymwys os yw eich eiddo'n bodoli'r meni prawf isod:

- Mae tenant yn rhentu'r eiddo ar hyn o bryd
- Does gan yr eiddo ddim system gwres canolog
- Mae gan yr eiddo sgôr TPY o E, F neu G
- Mae'r eiddo'n agos at rwydwaith nwy o'r prif gyflenwad

[Cynllun RhDC >](#)

[Cynllun Nyth >](#)



## Symudiad ar gyfer newid cynaliadwy - Byddwch yn rhan ohono

Gallai cenhedaeth newydd o fesuryddion nwy a thrydan fod o fudd i landlordiaid a thenantiaid.

Gan ddefnyddio rhwydweithiau diwifr, mae mesuryddion deallus yn disodli mesuryddion nwy a thrydan presennol i ddarparu gwybodaeth amser real am y defnydd o ynni yn ogystal â ffigur cywir o'r costau tanwydd disgwylidig mewn cyfnod penodol. Dangosir y wybodaeth hon ar ddangosydd yn y cartref, sy'n caniatáu i feddianwyr ddeall sut maen nhw'n defnyddio ynni, a'r union gostau y gallant eu disgwyl pan fyddant yn derbyn eu bil nesaf.

### Sut mae'r mesurau hyn yn helpu landlordiaid?

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i gyflwyno mesuryddion deallus ar draws y farchnad gyfan, sy'n golygu nad oes angen i landlordiaid dalu cost ymlaen llaw. Mae'r manteision eraill yn cynnwys:

- Diwedd ar filio amcangyfrifedig, gan ganiatáu i denantiaid ragweld a rheoli eu gwariant yn well
- Helpu i ddatrys problem biliau a etifeddwyd gan denantiaid blaenorol
- Mwy o ddiogelwch heb orfod cynnal darlenniadau wyneb yn wyneb blynyddol

Ewch amdani!

[Dysgu mwy >](#)

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales  
Copyright © 2015-2021

[www.rhentudoeth.llyw.cymru](http://www.rhentudoeth.llyw.cymru)  
[www.rentsmart.gov.wales](http://www.rentsmart.gov.wales)

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales  
Blwch PO / PO Box 1106  
Caerdydd / Cardiff  
CF11 1UA

